# COFNODION CYNGOR CYMUNED RHOSYBOL
## Cyfarfod Rhithwith Nos Lun 7 Medi 2020

1. Oherwydd sefyllfa Coronavirus, penderfyniad wedi cael ei wneud i gynnal y cyfarfod drwy Galwad Fideo.

2. Presennol
*Huw Edwards (Cadeirydd) Gwilym Morris, Wendy Morris Griffiths, Gwynfor Owen, Aled Morris Jones, Debra Griffiths, Richard Owain Jones*

3. Ymddiheuriadau
*Carol Jones, Dafydd Jones, Rhian Hayes*

4. Datgan Diddordeb
*WMG – eitem 6iv Ysgol Feithrin*

5. Darllen a cymeradwyo cofnodion cyfarfod 22 Mehefin 2020
*GM yn cynnig, AMJ yn eilio'r cofnodion*

6. **Materion yn codi**

   i. Blodau o fewn pentref Rhosybol – Jane a Damian Ashman
   Wedi derbyn cais am awgrymiadau am leoliadau i rhoi blodau o fewn y pentref. Hefyd os oes unrhyw gyfraniad ariannol tuag at y fenter. (ebost 13.07.20)
   *AMJ yn cynnig safle'r gofeb fel lleoliad i gael y blodau, ac hefyd wrth y blwch post wrth stad ty Newydd, GM yn eilio'r gofeb fel lleoliad saff i'r bocsys.*
   *AMJ yn cynnig £100 tuag at y fenter o gronfa trysglwyn, GM yn eilio.*

   ii. Eglwys Llandyfrydog, Mr Tom Bown wedi ysgrifennu ar ei rhan am £100 tuag at gostau torri gwair y fynwent yn ystod 2020.
   *WMG yn cynnig talu, AMJ yn cynnig £150 gan fod yr eglwys heb dderbyn arian ers sawl blwyddyn.*

   iii. Capel Parc, Mrs Eirian Rowlands yn gofyn am gymorth ariannol tuag at cost torri 2 goeden i lawr, sydd mewn perygl o gwympo mewn tywydd garw. Amcan bris o £800 i'w torri lawr. (ebost 07.09.20)
   *AMJ yn cynnig £800 o gronfa Trysglwyn tuag at y el, GM yn eilio.*

   iv. Ysgol Feithrin, Mrs Rita Ridgway wedi rhoi cais i mewn i Gronfa Trysglwyn i ddatblygu'r ardal allan gyda Canopi, ac hefyd i brynu adnoddau i galluogi'r cylch i darparu addysg i 2 grwp gwahanol o fewn canllawiau Covid. (Ebost 07.09.20)
   *Y cyngor yn gofyn os oes mwy o wybodaeth ariannol i'r cais, WMG yn egluro mai dim ond lle i 15 sydd yn cael mynychu bob sesiwn, does dim digon o le i bawb.*
   *AMJ yn cynnig rhoi hawl i'r cadeirydd gytuno i swm hyd at £500 os ddoith gwybodaeth cyn y cyfarfod nesaf. GM yn eilio.*

v. Cynrhychiolwyr Cyngor Cymuned (gweler rhestr o fewn ebost 07.09.20)
*Cadeirydd – Huw Edwards*
*Is Gadeirydd – Dafydd Jones*
*Swyddog Cyllid Cyfrifol – Dafydd Jones*
*Adrodd i'r Wasg/Gwefan- Mari Evans*
*Pwyllgor Neuadd – Wendy Morris Griffiths*
*Llywodraethwyr yr Ysgol – Wendy Morris Griffiths*
*Ceisiadau Cynllunio – Fel bo'r angen*
*Fforwm Cynllunio Ynys Môn – Huw Edwards*
*Un Llais Cymru – Huw Edwards*
*Cynllun Datblygu Lleol – I'w drafod*
*Gogledd Môn – Gwilym Morris a Aled Morris Jones*

*Fel aelodau cronfa Trysglwyn yn sefyll fel y cyngor Cymuned, felly bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn sefyll i'r gronfa.*

vi. Cae Chwarae Rhosybol
-Archwiliad RoSPA Play Safety y Cae chwarae Rhosybol (*ebost 12.08.20)*
*ME yn disgwyl am bris gan MacVenture play am atgywiro'r eitemau.*
*Hefyd angen pris am ffens i gau y cae chwarae i ffwrdd o'r llwybr.*

vii. Ty Gobaith – ymchwiliad os oes grantiau ar gael i'r elusen sydd yn cefnogi 3 o fewn ardal LL68 i archebu PPE. Neu unrhyw gefnogaeth arall.
*AMJ yn cynnog rhoi cyfraniad o £100 gan arian Trysglwyn gan fod cefnogaeth i 3 o'r ardal leol. GM yn eilio.*

viii. Cyfarfod mis Hydref – parhau gyda Zoom, neu cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Rhosybol
AMJ yn cynnig cario ymlaen gyda cyfarfod ar Zoom, pawb yn gytun.

## 7. Gwybodaeth

a) Un Llais Cymru – Hyfforddiant ar gael ar lein (ebost 01.09.20)
*ME yn fynychu cwrs ar lein yn ystod mis Hydref*

## 8. MATERION CYNLLUNIO

## CEISIADAU CYNLLUNIO

ADV/2020/4 – Arwydd yn Llandyfrydog 30/06/2020
*Wedi ei gytuno eisioes*

HR/2020/1 – Tynnu gwrych ar dir yn gadfa, Penysarn
*Wedi ei wrthod eisioes*

HHP/2020/121 – Cais llawn ar gyfer adeiladu modurdy newydd domestig yn Gyfynwen, Parc
*Dim gwrthwynebiad*

HHP/2020/160 – Cais llawn ar gyfer sied storfa yn Innisfree, Penygraigwen
*Dim gwrthwynebiad*

**PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

ADV/2020/4 – Arwydd yn Llandyfrydog
Cytunwyd gyda amodau

9. **ADRODDIAD ARIANNOL A BILIAU**

a) Anfoneb – RoSPA Play Safety £90.60 am archwiliad Cae chwarae Rhosybol
*AMJ yn cynnog, GM yn eilio*

10. **Unrhyw Fater Arall**

Drych Groeslon lon gefn – AMJ am holi Priffyrth gan ei bod eisioes wedi cytuno rhoi drych yn y safle ers tro.

WMG yn codi'r mater fod rhai plant o'r ardal yn talu am bws ysgol (maent o fewn 3 milltir i Ysgol Syr Thomas Jones) a tyd'r ffordd ddim yn saff iddynt gerdded ei hunain.  AMJ am holi CSYM.